Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-08-24 PTN 1

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-0674-24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddFinance@senedd.wales

01 Mawrth 2024

Annwyl Peredur,

Mae’n bleser gennyf amgáu yn Atodiad A ymateb y Llywodraeth i’r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans MS/AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

## Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft

Mae'r ymatebion i argymhellion y Pwyllgor wedi'u darparu gan y Gweinidog portffolio priodol. Atebwyd argymhellion 1-22 gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac mae gweddill yr argymhellion yn perthyn i feysydd Gweinidogion eraill.

Argymhellion 23, a 25-30 – gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Argymhelliad 24 – gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg ar y cyd
Argymhelliad 31, a 38-39 – gan y Gweinidog Newid Hinsawdd
Argymhellion 32-33– gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Argymhelliad 34-35, a 37 – gan y Gweinidog Addysg
Argymhelliad 36 – gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

## Proses y Gyllideb

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Yr arfer y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau'r Senedd oedd bod fersiynau Saesneg o'r papurau tystiolaeth yn cael eu darparu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi. Bydd fersiynau Cymraeg yn cael eu darparu cyn gynted ag y byddant wedi cael eu cyfieithu, sydd bob amser cyn i'r Gweinidog perthnasol ymddangos gerbron pwyllgor craffu'r Gyllideb.

Mae cyfieithu'r 120,000 o eiriau yn y papurau tystiolaeth ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 i ymateb i geisiadau penodol y pwyllgorau am wybodaeth yn gamp a hanner, ac nid oedd modd cwblhau'r dasg mewn pryd i gyhoeddi'r papurau tystiolaeth ar yr un pryd â dogfennau eraill y Gyllideb Ddrafft. Ni fyddai'n bosibl ychwaith i Lywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau Saesneg yn unig o'r papurau tystiolaeth ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft oherwydd byddai'n torri amodau ei Mesur Iaith Gymraeg 2011 ei hun wrth wneud hynny.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:

- bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a
- bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi sicrhau’r Pwyllgor Cyllid ei bod yn fodlon parhau i fynychu sesiwn graffu cyn y Gyllideb gyda’i swyddogion, fel sydd wedi digwydd gyda pharatoadau diweddar ar gyfer y Gyllideb. Yn ystod cyfnod paratoi’r broses o bennu'r Gyllideb bob blwyddyn, mae'r Gweinidog yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid gyda'r Prif Economegydd fel rhan o'i hymrwymiad i fwy o ymgysylltu. Mae'r Gweinidog hefyd yn cefnogi'r ddadl a arweinir gan y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau'r Gyllideb, sydd wedi dod yn nodwedd o'n paratoadau ar gyfer y Gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn bwriadu parhau i gynnal yr ymgysylltu hwn ar gyfer cylchoedd y Gyllideb yn y dyfodol.

Yn yr un modd, mae’r Gweinidog wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda’r Pwyllgor Cyllid i ystyried newidiadau arfaethedig i’n Protocol Busnes Cyllideb, sy’n siapio’r prosesau sydd yng nghylch blynyddol y Gyllideb.

Fodd bynnag, fel yr eglurodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar y Gyllideb ym mis Ionawr, ni fyddai’n synhwyrol darparu dogfennau’r Gyllideb yn gynharach oherwydd byddai’r wybodaeth naill ai ar goll neu wedi dyddio ac, felly, ni fyddai’n ddibynadwy erbyn cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft.

**Ymarfer Arbedion yn Ystod y Flwyddyn Llywodraeth Cymru 2023-24**

**Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut a pham y mae mynegeion gwahanol yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur effaith chwyddiant ar ei sefyllfa o ran gwariant ochr yn ochr â chyllidebau a chyllidebau atodol, os yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau chwyddiant, er mwyn sicrhau eglurder ar newidiadau i’r cyllid mewn termau real y mae’n eu hwynebu.

**Ymateb: Derbyn**

Os yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau chwyddiant, bydd yn cyhoeddi gwybodaeth ategol i egluro’r dyraniadau hynny – gan gynnwys y metrigau a ddefnyddir i asesu pwysau chwyddiant.

**Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am effaith chwyddiant ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â’r wybodaeth a ddarparwyd eisoes yng ngham y gyllideb derfynol a’r gyllideb atodol, er mwyn i’r Senedd allu craffu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru i liniaru pwysau o’r fath.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae’r wybodaeth a ddarperir ochr yn ochr â chyllidebau Llywodraeth Cymru yn cynnwys effaith ddisgwyliedig chwyddiant drwy’r tablau sy’n dangos amcangyfrifon twf mewn termau real. Mae cyllidebau diweddar hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am effaith y chwyddiant uwch na’r disgwyl ers adolygiad diwethaf Llywodraeth y DU o wariant yn 2021. Mae’r llythyr a roddwyd i’r Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf ar

ragolygon cyllidol hefyd yn cynnwys diweddariad ar y disgwyliadau o ran chwyddiant. Os bydd unrhyw newidiadau cyllidebol yn deillio o effeithiau chwyddiant, nad ydynt yn rhan o ddigwyddiadau arferol y gyllideb, bydd y rhain yn cael eu hegluro'n llawn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chyllideb atodol yn gynt wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn y dyfodol nad ydynt yn rhan o amserlenni arferol y gyllideb atodol, er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod y Senedd yn cael y gair olaf ar benderfyniadau gwariant o'r fath.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Protocol y Gyllideb y mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru wedi cytuno arno yn nodi'r ymrwymiad i gyhoeddi dwy gyllideb atodol bob blwyddyn.

Nid dim ond cynlluniau gwario sydd mewn cyllidebau atodol, maent hefyd yn cynnwys lefel yr adnoddau a ddaw i law. Y cyllidebau hyn yw'r mecanwaith ffurfiol i gytuno ar gynlluniau gwario'r Llywodraeth ac i reoleiddio'r modd y cyllidir y gwario a wneir drwy gyllid a geir gan Lywodraeth y DU a thrwy drethi datganoledig. Dim ond pan fydd yr holl wybodaeth honno ar gael y mae'n briodol cyflwyno cyllideb atodol.

Rhoddir ystyriaeth i amseriad pob cyllideb atodol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau i gyllidebau o ganlyniad i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, a hefyd i gofnodi newidiadau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn ceisio amseru ein cyllidebau atodol i fod yr un pryd â Phrif Amcangyfrifon ac Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU er mwyn i'r Senedd allu craffu ar lefel yr adnoddau yn ogystal â chynigion ar gyfer eu defnyddio.

Fel arfer, bydd cyllideb atodol gyntaf mewn blwyddyn ariannol yn cael ei chyhoeddi ar ôl i Brif Amcangyfrif Llywodraeth y DU gael ei gwblhau; gall hyn hefyd gadarnhau newidiadau sy'n deillio o Ddatganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU ym mis Mawrth a fyddai'n rhy hwyr i'w cynnwys yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

Fel arfer, cyhoeddir yr ail gyllideb atodol ar ôl i Amcangyfrif Atodol Llywodraeth y DU gael ei gwblhau. Gan mai'r gyllideb atodol hon yw'r cyfle olaf yn ystod y flwyddyn ariannol i reoleiddio newidiadau yn sgil penderfyniadau Llywodraeth y DU, mae'r amseru'n hanfodol i sicrhau bod cynigion gwario a gymeradwywyd gan y Senedd yn cynnwys y newidiadau hynny. Fel arfer, bydd Amcangyfrif Atodol y DU yn cael ei gwblhau ddechrau mis Chwefror.

Gellir gwneud penderfyniadau ynghylch dyraniadau, naill ai o gronfa wrth gefn Llywodraeth Cymru neu wedi'u hailflaenoriaethu o fewn Prif Grwpiau Gwariant i fynd i'r afael â phwysau sy'n dod i'r amlwg, cyn cyllideb atodol, a gellir eu rheoleiddio mewn cyllideb atodol sydd i ddod.

Cafodd cyllideb atodol ychwanegol ei chyflwyno yn ystod blwyddyn gyntaf pandemig Covid yn sgil yr arian ychwanegol eithriadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ganol y flwyddyn honno.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i ddileu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol Cronfa Wrth Gefn Cymru, a chynyddu maint y terfynau benthyca a Chronfa Wrth Gefn Cymru fel ei gilydd, o leiaf yn unol â chwyddiant, ac ystyried bod gwerth y rhain mewn termau real wedi'i erydu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am fwy o hyblygrwydd cyllidol drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol: Cyllid (F:ISC) a thrwy gyfarfodydd dwyochrog gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Yn fwyaf diweddar, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yr achos mewn llythyr i'r Canghellor [6 Chwefror], ac yn ystod cyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys [25 Ionawr].

Mae'r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU ac yn agored i effaith amseriad y penderfyniadau hynny.

Y flwyddyn nesaf (2024-25) bydd ein terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn yn werth 23% yn llai mewn termau real na phan gawsant eu cyflwyno yn 2018-19. Rydym wedi cyflwyno'r achos dro ar ôl tro i'n terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn gael eu mynegeio gyda chwyddiant ac i ddiddymu ein terfynau ar gyfer tynnu i lawr o'n Cronfa Wrth Gefn. Cafodd Llywodraeth yr Alban yr hyblygrwydd hwn fis Awst diwethaf, ac maent yr un mor berthnasol i Gymru lle mae chwyddiant uchel wedi erydu ein cyllideb a hyblygrwydd ein cyllideb.

Ar ben hynny, mae lefel yr hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfalaf a gynigir gan Lywodraeth y DU i Ogledd Iwerddon i gefnogi'r gwaith o adfer y Weithrediaeth yn gyferbyniad llwyr i'r diffyg cynnydd yn nherfynau benthyca Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru yn 2024-25 yn werth 10% yn llai mewn termau real na phan gafodd ei phennu gan Lywodraeth y DU yn Adolygiad Gwariant 2021.

Rhaid bod yn deg ac yn gyson wrth weithredu trefniadau cyllido'r DU ar draws pob rhan o'r DU. Gwerthfawrogir cefnogaeth barhaus y Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

## Naratif y Gyllideb a'r Dull Cyflwyno

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i roi trosolwg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn erbyn ei phroffiliau gwariant, er mwyn deall effaith newidiadau yn ystod y flwyddyn, mewn amser real, ar gyllidebau adrannol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym eisoes yn amlinellu gwybodaeth sylweddol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy gyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft, Cyllideb Derfynol a Chyllideb Atodol. Rydym yn adrodd ar fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Yn ychwanegol, drwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth am fonitro a chanlyniadau meysydd polisi ar ein gwefan. Rydym yn fodlon ystyried gwelliannau drwy ein gwaith ar Gynllun Gwella'r Gyllideb, cydnabod bod yn rhaid i newidiadau o'r fath fod yn gymesur ac y dylid eu hystyried hefyd drwy unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am ble mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu yn y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys:

- manylion yr holl feysydd sydd heb eu datganoli, y mae Llywodraeth Cymru y credu y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu cyllido; ac
- esboniad o pam y mae'r galw yn llai mewn rhai meysydd ac effaith hyn o ran y gyllideb

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae llawer o'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdani i'w gweld yn y papurau tystiolaeth Gweinidogol a roddwyd i gefnogi'r penderfyniadau y tu ôl i'r broses gyllidebol.

Gan ein bod wedi dod i ddiwedd y cyfnod hwn o sawl blwyddyn, mae cyfle i adolygu a yw'r wybodaeth a ddarperir yn addas ar gyfer anghenion y Pwyllgor. Fodd bynnag, byddem yn ystyried y dylid gwneud hyn yn ffurfiol ac yn unol â newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad pellach o effaith ei chyllideb ar feysydd y gellir ystyried eu bod yn rhai ataliol eu natur.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn darparu llawer iawn o wybodaeth sy'n ymwneud â mesurau gwario ataliol yn ein cynlluniau gwario, ac rydym yn dal wedi ymrwymo i wella sut rydym yn ymwreiddio ac yn dangos sut rydym yn atal yn nogfennau ein Cyllideb. Byddwn yn ystyried a oes angen gwneud rhagor o newidiadau fel rhan o'n hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r gwaith ehangach ar Gynllun Gwella'r Gyllideb.

Nid dim ond â maint y cyllid y mae atal yn berthnasol; mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd y caiff cyllid ei wario. Mae diffinio canlyniadau gwario o safbwynt atal yn gymhleth, yn enwedig lle ceir nifer o fuddiolwyr i'r gwariant ac felly, o bosibl, sawl math gwahanol o atal sy'n digwydd mewn un buddsoddiad.

**Argymhelliad 11.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cynllun peilot atal yn cael ei gymhwyso ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol, i ddarparu data ystyrlon i nodi’r duedd o ran atal dros flynyddoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy’r gwaith ar Gynllun Gwella’r Gyllideb, byddwn yn amlinellu diweddariadau ar ein dull o wreiddio atal yn ein proses gyllidebu ar yr adeg briodol. Fel rydym wedi’i amlinellu, mae hwn yn faes gwaith cymhleth a thymor hwy.

**Argymhelliad 12.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys gwybodaeth mewn Asesiadau Effaith Integredig Strategol o hyn ymlaen i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y pum ffordd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wneud penderfyniadau cyllidebol.

**Ymateb: Derbyn**

Fe wnaethom ddarparu manylion am sut mae’r pum ffordd o weithio wedi cael eu hystyried yn ein Cyllideb Ddrafft 2024-25, fel y dangosir yn ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o’n Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Fel rhan o’n gwaith ar Gynllun Gwella’r Gyllideb, gan gynnwys yr adolygiad o’r Asesiad Effaith Integredig Strategol, rydym yn fodlon ystyried gwelliannau pellach i sut rydym yn dangos bod y pum ffordd o weithio wedi cael eu hystyried yn ein penderfyniadau cyllidebol.

**Argymhelliad 13.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi manylion yr adolygiad y bydd yn ei gynnal o Gynllun Gwella’r Gyllideb a’r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, cylch gorchwyl yr adolygiad, manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac amserlenni cysylltiedig.

**Ymateb: Derbyn**

Er nad ydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r Cynllun Gwella’r Gyllideb, fel rhan o ddyluniad y Cynllun rydym yn ystyried yn barhaus sut gallwn wella prosesau’r gyllideb a threthi; nodir hyn ym mhob diweddariad blynyddol o’r cynllun.

O ran yr adolygiad o’r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan fod yr adolygiad hwn wrthi’n cael ei ffurfio, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar yr adeg briodol.

Mae aelodau’r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb eisoes wedi’u cyhoeddi ac ar gael ar ein gwefan yn:
Y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb | LLYW.CYMRU

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r ddau gynllun peilot ar gyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill ac yn gweithio ar y cyd â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru / y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod i brif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn hapus i weithio gyda'r Grŵp Cyllideb Menywod a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod ar sut y gallwn ni wreiddio cyllidebu ar sail rhywedd ymhellach. Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod eisoes yn aelod gwerthfawr o'n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.

Fel rydym wedi'i amlinellu o'r blaen, mae ein gwaith ar gyllidebu ar sail rhywedd, gan gynnwys y cynlluniau peilot, yn cynrychioli newid systemig a diwylliannol. Rydym yn dysgu gan arweinwyr byd, fel llywodraeth Gwlad yr Iâ, a ddywedodd wrthym ei bod wedi cymryd o leiaf 7 mlynedd i wreiddio'r newidiadau o gynlluniau peilot i weithredu. O ymgysylltu ag arweinwyr byd eraill, fel Canada, mae angen i unrhyw ddull gweithredu fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r effaith y mae'n ceisio ei chael.

Rydym eisoes wedi rhoi diweddariadau o fewn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb ac yn parhau i ddysgu o'n tri chynllun peilot presennol ar gyllidebu ar sail rhywedd, ac yn cydweithio ar draws yr ardaloedd i rannu'r gwersi a ddysgir a deall sut y gellir ymwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach.

**Ysgogiadau Cyllidol**

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i fonitro tueddiadau ym maint addasiadau i'r grant bloc dros amser ac yn defnyddio data o'r fath i ystyried a ellid gwneud newidiadau i'r broses o wneud cysoniadau drwy addasiadau i'r grant bloc, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gael mynediad cyflymach at unrhyw gynnydd yn ei chyllid.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y broses ar gyfer cysoni gwallau o ran rhagolygon yn ymwneud ag addasiadau grant bloc a refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn cael ei monitro a'i hadolygu'n gyson. Er ein bod wedi gweld symiau cadarnhaol yn nwy flynedd gyntaf cysoni CTIC, dylid nodi na fyddem yn disgwyl i'r patrwm hwnnw barhau, gan fod rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ganolog. Dros amser, ni ddylai fod unrhyw fantais gyllidebol benodol o ran cyflwyno symiau cysoni interim.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ei brosesau ar gyfer casglu a rhannu data peidio â chydymffurfio cyhoeddus sy'n ymwneud â'r dreth gwarediadau tirlenwi yn addas at y diben, ac yn rhoi sicrwydd na fydd problemau yn y maes hwn yn parhau.

**Ymateb: Derbyn.**

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gasglu a defnyddio data peidio â chydymffurfio sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Mae ACC yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i gasglu data ar achosion lle gallai treth ychwanegol fod yn daladwy mewn safleoedd tirlenwi ac ar waredu gwastraff heb awdurdod. Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf diweddar a chynhwysfawr sydd ar gael, gan gadw at ofyniad ACC i gadw gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr yn gyfrinachol.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn toriad yr haf ar drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch data a datblygiadau dadansoddol sy'n ymwneud â threthiant ledled y DU, ac yn darparu asesiad ynghylch a oes lle i wella pwerau trethiant presennol Llywodraeth Cymru yn sgil unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith dadansoddi sy'n ymwneud â threth incwm a wneir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â CThEF, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Llywodraeth yr Alban, a Chomisiwn Cyllidol yr Alban. Bydd y gwaith dadansoddi yn sail i ystyriaethau parhaus y Llywodraeth ar geisio unrhyw welliannau yn y dyfodol i'w phwerau trethu presennol.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y cynlluniau cyfalaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni yn 2024-25 yn nogfennaeth ei chyllideb derfynol, gan gynnwys manylion prosiectau sydd wedi'u hailflaenoriaethu, eu cwtogi neu eu hailbroffilio dros nifer o flynyddoedd yn sgil y cyfyngiadau cyllidebol yn y maes hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd y Tablau Mapio Ardal Buddsoddi eu cyhoeddi fel rhan o'r tablau sy'n cefnogi'r Gyllideb Derfynol. Pwrpas y tablau hyn yw dangos unrhyw newidiadau i'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i Ardaloedd Buddsoddi'r Cynllun Cyllid Seilwaith a gyhoeddwyd yn 2021. Pennwyd y dyraniadau a wnaed yn y Cynllun Cyllid Seilwaith dros fwy nag un cyfnodau cyllidebol i gydnabod y ffordd y mae cyllid cyfalaf yn cael ei wario; gan gymryd amser i ddatblygu rhaglenni a phrosiectau, caffael, gweithredu a dechrau gwario. Felly, mae Gweinidogion wedi bod yn rheoli eu cynlluniau cyfalaf o fewn y dyraniadau cyllid cyfalaf ar gyfer sawl blwyddyn a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

Fodd bynnag, realiti ein sefyllfa ariannol bresennol yw bod Gweinidogion unigol wedi gorfod nodi cyfalaf i gyfnewid yn refeniw ac wedi gorfod ailbroffilio. Bydd effaith y penderfyniadau hyn ar ddyraniadau cyfalaf pob Ardal Buddsoddi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cael ei nodi yn Atodiad A. Mater i Weinidogion unigol yw'r cynlluniau cyflawni manwl.

Cafodd fersiwn diweddaraf o Lif Prosiectau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd ei gyhoeddi gyda'r Gyllideb Derfynol. Mae'r llif yn cynnwys rhaglenni a phrosiectau sydd, os nad ydynt eisoes wedi dechrau, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau presennol i ddechrau o bosibl yn ystod y tair blynedd nesaf. Pwrpas y llif yw rhannu gwybodaeth i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat o ran buddsoddi, i hwyluso cynllunio strategol ac i hybu cydweithredu.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud y mwyaf o fuddsoddiadau cyfalaf drwy weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu amgylchedd galluogi a fyddai'n caniatáu i lywodraeth leol ddefnyddio ei phwerau benthyca darbodus i hybu capasiti o fewn ei chyllidebau cyfalaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £88m o gyllid benthyca â chymorth heb ei neilltuo drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi'i ategu gan £88m o gyllideb cyfalaf.

Mae hefyd yn darparu £12m ar gyfer y fenter benthyca llywodraeth leol er mwyn gwella priffyrdd, a £10m ar gyfer y fenter benthyca llywodraeth leol ysgolion yr 21ain ganrif drwy'r Grant Cynnal Refeniw bob blwyddyn.

Mae cyllid ar gyfer costau refeniw tymor hir y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r setliad bob blwyddyn, ar gyfer y rhaglenni y cytunwyd arnynt. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael cymorth drwy grantiau cyfalaf penodol, er enghraifft addysg a thai.

Mae timau polisi yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid cyfalaf hwn dros unrhyw flwyddyn ariannol wrth i broffiliau a chostau newid dros brosiectau sawl blwyddyn. Mae benthyca cyfalaf i awdurdodau lleol yn gydbwysedd, o fewn eu pwerau benthyca darbodus, o sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl a rheoli costau refeniw parhaus y buddsoddiad hwnnw. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gael y gorau o'r cyllid cyfalaf sydd ar gael.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod mai ein hegwyddor gyffredinol o hyd yw ein bod yn ystyried y math rhataf o gyllid yn gyntaf, ac yn hynny o beth, mae benthyca awdurdodau lleol yn parhau i fod yn ddewis drutach na'n llifrau ein hunain. Mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o oblygiadau refeniw benthyca.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r Trysorlys wedi cytuno ar gais Llywodraeth Cymru i newid cyllid o gyfalaf yn refeniw, ac yn rhoi gwybodaeth i egluro'r effaith gyllidebol os caiff y cais hwn ei wrthod, gan gynnwys manylion prosiectau, polisïau a mentrau unigol y byddai hynny'n effeithio arnynt.

**Ymateb: Derbyn**

Cytunodd Trysorlys y DU i newid £19m o gyfalaf yn refeniw yn 2023-24 https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-diweddariad-ar-sefyllfa-ariannol-2023-24yn ychwanegol at y rhai sy'n llifo fel addasiadau Barnett o newidiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Adrannau Llywodraeth y DU – cyfanswm o £35m o newid. Roedd hyn gryn

dipyn yn is na’r cais i newid hyd at £200m. Roedd yr hysbysiad hwyr ynghylch cyllid canlyniadol refeniw ychwanegol o £231m yn yr amcangyfrifon atodol yn lliniaru’r effaith ar y gyllideb refeniw, gan atal unrhyw effaith ychwanegol ar gyflawni y tu hwnt i’r rheini a nodwyd yn niweddariad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ar 17 Hydref 2023.

Ar ôl hynny, defnyddiwyd y gyllideb cyfalaf a oedd wedi’i chadw ar gyfer y newid i ariannu rhai dyraniadau cyfalaf ychwanegol ac yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i’w defnyddio yn y dyfodol. Mae’r rhain wedi’u nodi yn ail gyllideb atodol 2023-24 a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror.

**Argymhelliad 21.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys penderfyniadau a dogfennaeth sy’n ymwneud â dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a chyffredinol fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cyfle i graffu ar gynlluniau fel rhan o’r broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cydnabod y byddai’r Senedd yn hoffi gweld yr holl ddyraniadau cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael eu darparu yn y Gyllideb Ddrafft, ac yn wir dyna fyddai ein dewis, ond mae’r ffaith bod Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn hwyr ynghyd â chymhlethdod y mecanweithiau hyn yn aml yn gofyn am ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol cyn y gallwn gyhoeddi cyllid.

**Blaenoriaethau Gwario Llywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 22.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro sut y mae’r Gyllideb Ddrafft yn diogelu gwasanaethau rheng flaen craidd a ariennir ac a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol ac addysg.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi diogelu’r cynnydd o 3.1% a ragwelwyd yn setliad llywodraeth leol 2024-25 fel rhan o’r gyllideb gan roi sicrwydd i awdurdodau lleol yn erbyn eu ffigurau cynllunio. Gan fod y rhan fwyaf o wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg, mae cynnal cyllid drwy’r setliad refeniw wedi’i neilltuo yn diogelu’r gwasanaethau rheng flaen craidd a flaenoriaethwyd gennym yn ein Cyllideb. Rydym hefyd wedi diogelu’r rhan fwyaf o gyllid grant penodol i awdurdodau lleol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y bydd £25m yn cael ei gynnwys yn y Gyllideb Derfynol o’r cyllid canlyniadol a ragwelir. Bydd £14.4m yn cael ei gyfeirio at y setliad llywodraeth leol i helpu gyda phwysau yn lleol, gan gynnwys gofal cymdeithasol a chyflogau athrawon. Bydd y gweddill yn cael ei ddefnyddio i adfer grant y gweithlu gofal cymdeithasol i £45m.

Mae gwaith i leihau’r baich gweinyddol ar grantiau hefyd wedi cyfrannu at ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae grantiau addysg wedi cael eu rhesymoli’n bedair

ffrwd fawr, gyda mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion lleol. Bydd y trefniadau monitro hefyd yn cael eu rhesymoli.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25 a'r blynyddoedd dilynol, fel y gellir craffu arnynt ochr yn ochr â dyraniadau cyllid.
- yn cynnal asesiad o'r canlyniadau ar gyfer GIG Cymru, i sicrhau eu bod yn fesuradwy ac y gellir eu monitro'n effeithiol.
- yn cyhoeddi'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth arall a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru megis canllawiau cynllunio gweithredol, ar yr un pryd ag y cânt eu rhannu â'r sector.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei disgwyliadau gan Fyrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2024-27. Mater i sefydliadau'r GIG yw datblygu eu cynlluniau yn unol â gofynion y Fframwaith Cynllunio, yn seiliedig ar anghenion eu poblogaeth leol, ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio'r GIG ar 18 Rhagfyr 2023. Disgwylir i Fyrddau Iechyd gyflwyno eu cynlluniau a gymeradwywyd gan y bwrdd erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Ar ôl eu cael, cynhelir asesiad cadarn o'r cynlluniau hynny i sicrhau bod eu cynlluniau'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Fframwaith Cynllunio. Yn dilyn penderfyniad ar statws y cynlluniau hyn, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi diweddariad drwy ddatganiad ysgrifenedig.

Mae trefniadau perfformiad a monitro helaeth eisoes ar waith gyda'r GIG yng Nghymru i fonitro perfformiad a darpariaeth ariannol. Mae hefyd yn werth cydnabod mai'r bwriad ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r GIG yn 2024-25 yw cefnogi a chynnal gwasanaethau craidd gyda chyllid i liniaru effeithiau pwysau chwyddiant, galw anochel, costau cynyddol ynni a chyflogau.

Fel arfer, bydd llythyr dyrannu blynyddol y Byrddau Iechyd yn cael ei anfon i'r GIG o gwmpas Rhagfyr 20 neu 21 bob blwyddyn, sef yr amserlen gynharaf bosibl ar ôl cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei gyhoeddi drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru sydd wedyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gall fod oedi o ychydig wythnosau rhwng y digwyddiadau hyn. Byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn hapus i ddarparu copi e-bost o Gylchlythyr Iechyd Cymru i'r Pwyllgor ar y diwrnod y caiff ei gyhoeddi.

O ran canllawiau cynllunio, roedd fframwaith cynllunio'r GIG yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol cyn y broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig, gan oedi dros dro fel rhan o'n hymateb i bandemig Covid-19. Ar ôl ailddechrau'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig y llynedd, ac o ystyried yr amgylchedd cynllunio cymhleth – sy'n cynnwys adfer ar ôl Covid a heriau ariannol sylweddol, mae'r Fframwaith bellach yn

cael ei gyhoeddi drwy lythyr Gweinidogol, a oedd yn symleiddio'r broses gynllunio ac yn darparu blaenoriaethau cliriach. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cais y Pwyllgor i gyhoeddi hwn ar ôl iddo gael ei gyhoeddi i GIG Cymru, ac rydym yn fodlon gwneud hynny yn y dyfodol.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am yr allbynnau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol rheng flaen eu cyflawni ar gyfer y cyllid a ddarperir, a sut y bydd yn monitro effeithiau ei phenderfyniadau cyllido ar wasanaethau'n ehangach.

**Ymateb: Derbyn**

Diffinnir disgwyliadau adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Mae'r modd y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru drwy'r casgliadau data Perfformiad a Gweithgarwch ac Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.

Mae'r data a gesglir yn darparu mesurau gwrthrychol ar gyfer darparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol ac mae'n cynnwys gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Drwy'r gwaith casglu data hwn, gall Llywodraeth Cymru fonitro effaith unrhyw benderfyniadau cyllido ar ddarparu gofal cymdeithasol drwy olrhain gweithgarwch a pherfformiad awdurdodau lleol.

Yna, bydd Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn ychwanegu at y gwaith casglu data hwn drwy ofyn i awdurdodau lleol nodi'n glir beth maent wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio wyth safon ansawdd i asesu eu hunain, a darparu tystiolaeth i gefnogi eu canfyddiadau.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn parhau i chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o fonitro darpariaeth gofal cymdeithasol drwy eu harolygiadau rheolaidd o ddarparwyr gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Bydd AGC yn craffu'n annibynnol ar berfformiad awdurdodau lleol, sy'n seiliedig ar y data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, i ddal awdurdodau lleol i gyfrif am eu gwaith.

O ran gwasanaethau Addysgol, mae'r gwasanaethau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol dros fonitro eu hysgolion ac ymyrryd lle bo hynny'n briodol. Mae gwaith arolygu Estyn yn dal yn rhan sylfaenol o'r system atebolrwydd genedlaethol ond dylai hefyd chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sbarduno a chyfarwyddo gwelliannau.

Ar gyfer Grant Addysg newydd yr Awdurdodau Lleol, byddwn yn monitro canlyniadau ein rhaglenni drwy delerau ac amodau newydd y grant. Rydym wedi symleiddio gofynion monitro ein rhaglenni addysg cyn-16, yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru

i leihau’r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, ac ochr yn ochr â’r ffrwd waith ar gyfer lleihau llwythi gwaith a biwrocratiaeth mewn ysgolion ledled Cymru.

Mae ein telerau ac amodau yn gofyn am adrodd yn erbyn canlyniadau lefel uchel a nodir ym mhob un o bedair elfen Grant Addysg newydd yr Awdurdodau Lleol – Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon i’n helpu i fonitro canlyniadau i blant ar draws ein rhaglenni a ariennir.

**Argymhelliad 25.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddarparwyd yn 2023-24, gan gynnwys y dyraniadau yn ystod y flwyddyn, i fynd i’r afael â phwysau COVID-19 ar wasanaethau’r GIG a sut y penderfynwyd ar y rhain, yn ogystal â chadarnhau’r cymorth a ddarparwyd at y diben hwnnw yn y Gyllideb Ddrafft.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Roedd datganiad llafar y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ym mis Hydref 2023 ar ailflaenoriaethu cyllidebau Llywodraeth Cymru yn nodi bod £425m wedi’i ddyrannu i gefnogi cyllidebau’r GIG. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu ein dull o ddyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol ar 8 Tachwedd, ac mae ar gael yn:

Datganiad Ysgrifenedig: Dyraniadau a Chyfansymiau Rheoli Targed Byrddau Iechyd Lleol (8 Tachwedd 2023) | LLYW.CYMRU

Mae’r datganiad ysgrifenedig yn rhoi manylion y cyllid a ddarparwyd yn 2023-24 i’r GIG i gefnogi:

- £150m i gefnogi sefyllfaoedd sylfaenol y Bwrdd Iechyd gan gynnwys effaith etifeddol Covid-19 ar y sylfaen gostau.
- £186m i gefnogi pwysau chwyddiant ar y Bwrdd Iechyd, yn enwedig o ran presgripsiynu, pecynnau gofal, a meddyginiaethau.
- £8.24m i gynyddu capasiti cymunedol a chefnogi’r gwaith o weithredu ‘Ymhellach yn Gyflymach’, gan gryfhau cadernid ein system y gaeaf hwn.

Mewn egwyddor, roedd y dyraniadau yn rheolaidd, ond roeddent yn amodol ar gynnydd Byrddau Iechyd o ran cyflawni’r cyfansymiau rheoli targed a nodwyd gan y sefydliad. Roedd y datganiad hefyd yn cadarnhau cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog gyda chostau tâl yn cael eu hariannu yn unol â’r egwyddorion presennol, a’r dyraniadau eraill a nodwyd uchod yn cael eu dyrannu yn unol â’r brif fformiwla dyrannu.

Yn ogystal, darparwyd y cyllid canlynol ar sail anghylchol:

- £75m o gymorth ychwanegol ar gyfer pwysau chwyddiant ar y Bwrdd Iechyd, ar sail fformiwla ddyrannu.
- £49m fel dyraniad dangosol i helpu â chostau ynni yn 2023/24 yn ychwanegol at y sefyllfaoedd sylfaenol. Darparwyd hyn ar sail cost wirioneddol fesul Bwrdd Iechyd.

Roedd y dyraniadau rheolaidd a amlinellwyd yma yn cydnabod effaith barhaus Covid-19 ar sail cost sefydliadau'r GIG ac felly cawsant eu cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft a dyraniadau Byrddau Iechyd Lleol 2024-25 fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â'r cyllid hwn, gwnaethom barhau i ariannu rhaglenni Covid-19 cenedlaethol penodol yn ystod 2023-24, gan gyhoeddi cyllid i dalu am gostau gwirioneddol y GIG o ran rhaglenni brechu, profion a chyfarpar diogelu personol. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hariannu eto yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 ac rydym wedi dyrannu cyllid ar gyfer y rhaglenni hyn i waelodlinau sefydliadol er mwyn darparu sicrwydd cynnar ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu Gofal Iechyd Parhaus, gan gynnwys ystyried:

- y meini prawf cymhwystra a sut y cânt eu dehongli a'u cymhwyso i sicrhau bod gofal yn cael ei asesu'n briodol fel gofal iechyd ynteu gofal cymdeithasol;

- sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynghyd â'r costau cysylltiedig er mwyn asesu a ydynt yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'r sectorau dan sylw.

**Derbyn mewn Egwyddor**

Ar ôl adolygiad trylwyr ac estynedig gyda rhanddeiliaid allweddol yn 2021, mae dogfen Fframwaith Cenedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar (Ebrill 2022). Mae'r Fframwaith diwygiedig yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu Gofal Iechyd Parhaus yn deg yng Nghymru, ac mae'n cynnwys y meini prawf i'w defnyddio wrth bennu cymhwysedd.

Yn dilyn y broses hon, nid oes unrhyw gynlluniau i newid elfennau craidd y Fframwaith yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad pellach o Ofal Iechyd Parhaus yn rhan annatod o'r gwaith ehangach o ailstrwythuro gofal a chymorth yng Nghymru, er enghraifft drwy'r cynllun gweithredu tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Mae Cam 1 yn cynnwys camau gweithredu i ystyried opsiynau mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus ar ôl gweithredu'r Fframwaith a ddiweddarwyd yn ddiweddar ynghyd â datblygiadau parhaus fel y bwriad i gyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Ar ben hynny, mae Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru, a sefydlwyd ym mis Awst 2023, ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer i edrych ar gyflawniadau a chostau Gofal Iechyd Parhaus ac a oes gwerth am arian yn cael ei sicrhau. Drwy'r gwaith hwn, sy'n cael ei wneud ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol, mae darlun cenedlaethol o wariant Gofal Iechyd Parhaus yn cael ei sefydlu sy'n helpu i nodi cyfleoedd rhanbarthol a chenedlaethol i siapio'r farchnad, yn ogystal â chyfleoedd i leihau'r gost tra'n sicrhau bod ansawdd a chanlyniadau'n cael eu diogelu.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi sicrwydd y bydd mesurau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn pe bai taliadau am wasanaethau'n cynyddu, fel sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Bwriedir i'r fframwaith codi ffioedd ac asesiadau ariannol a gyflwynwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sicrhau bod ffioedd, pan gânt eu codi, yn gyson, yn deg ac yn cael eu deall yn glir. Bydd gan bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt hawl i gael cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol mewn rhai amgylchiadau yn seiliedig ar eu cymhwysedd ariannol, a bydd gan rai hawl i gael gofal a chymorth am ddim.

Byddai angen ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynyddu'r taliadau a byddai angen cynnal asesiad cynhwysfawr o'r effaith hefyd. Dim ond ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad yn ofalus ac ar ôl asesu'r effaith y byddai Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, wrth benderfynu a ddylid codi tâl ac wrth bennu swm unrhyw dâl, cyfraniad neu ad-daliad y bydd angen ei wneud neu ei dalu, rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr egwyddorion y seilir y fframwaith hwn arnynt. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau na chodir mwy ar bobl nag y mae'n rhesymol ymarferol iddynt ei dalu, ac ni ddylid codi mwy arnynt na'r gost i'r awdurdod o ddarparu neu drefnu'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro pam y gwnaed gostyngiadau i'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'i staff, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y penderfyniad hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Wrth fynd i'r afael â'r heriau ariannol a oedd yn ein hwynebu yn y Gyllideb Ddrafft, nid oedd unrhyw benderfyniadau hawdd. Roedd yn rhaid gwneud y penderfyniad anodd i leihau grant y gweithlu gofal cymdeithasol o £45 miliwn i £34.6 miliwn.

Yn dilyn dyraniad o gyllid ychwanegol yn yr Amcangyfrifon Atodol, dyrannwyd £10.6m ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol i adfer grant y gweithlu gofal cymdeithasol i £45m a lliniaru'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal asesiad o'r heriau recriwtio a chadw y mae GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu a'i fod yn cyhoeddi ei ganfyddiadau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd GIG Cymru yn mynd ati i reoli eu gweithlu ac yn cynnal cynlluniau gweithlu cadarn i leihau nifer y swyddi gwag – gyda chymorth buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddi gweithlu newydd a rhaglenni recriwtio rhyngwladol moesegol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau ar weithlu'r GIG, gan gynnwys data am swyddi gwag.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i arwain y gwaith o gasglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol. Darperir adroddiad manwl ar statws y gweithlu yn flynyddol, sy'n cynnwys data am swyddi gwag. Gall fod yn anodd casglu data ar nifer y swyddi gwag yn y system gyfan ym maes gofal cymdeithasol gan fod y rhan fwyaf o weithwyr yn cael eu cyflogi gan y sector annibynnol.

Mae llwyfan Gofalwn Cymru yn parhau i ddatblygu gyda'r bwriad o ddarparu data mwy manwl a chywir am swyddi gwag a recriwtio. Yn ystod 2024, bydd data ychwanegol ar gael am y nifer a'r mathau o swyddi gwag ym maes gofal cymdeithasol. Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu ar y data a ddarperir drwy weithredu a datblygu ein rhaglenni gwaith, ein buddsoddiadau a'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd ar hyn o bryd yn targedu cefnogi gweithlu cadarn a sefydlog.

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad i ddeall yr effaith y mae penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru mewn perthynas â GIG Cymru yn ei chael ar bwysau gofal cymdeithasol, o ystyried bod y ddau yn anorfod yn gysylltiedig â'i gilydd.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae effaith ein penderfyniadau cyllido wedi'i nodi'n fanwl yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ac yn y papurau tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd a gyhoeddwyd fel rhan o'r gyfres o ddogfennau Cyllideb Ddrafft. Mae'r dogfennau hyn yn darparu'r sail i'r rhesymau dros gynyddu'r cyllid ar gyfer y GIG yn hytrach na dyrannu cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw. Roeddem yn cydnabod bod cyswllt anorfod rhwng y ddau faes hyn drwy leihau'r angen am ofal ysbyty, symud pobl allan o'r ysbyty pan fyddant yn barod i adael, a darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg honno.

Fel roeddem wedi'i amlinellu, roeddem yn wynebu sefyllfa ariannol heriol iawn yn 23-24 ac roedd yn rhaid i ni weithredu ganol y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rheoli ein sefyllfa yn gyffredinol. Nodwyd arbedion sylweddol yn y gyllideb ar draws cyllidebau canolog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwnaethom lwyddo i'w hailgyfeirio a darparu rhagor o gymorth i liniaru pwysau rheng flaen yn y GIG. Ar gyfer gwaith cynllunio cyllideb 2024-25, roeddem yn dal i wynebu sefyllfa ariannol eithriadol o anodd gyda phwysau newydd yn dod i'r amlwg ac roedd yn rhaid i ni ailgynllunio ein cyllideb. Yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd yn rhaid i ni ailadrodd y gwaith ailflaenoriaethu a wnaethom yn 2023-24 a gwneud penderfyniadau anodd iawn. Roedd hyn yn cynnwys y penderfyniad i leihau grant y gweithlu gofal cymdeithasol. Roeddem yn gwybod y byddai unrhyw ostyngiadau yn cael effaith, ond roeddem wedi dewis blaenoriaethu meysydd eraill sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd o gyllidebau canolog, fel y cynllun 'dileu elw' a grantiau i'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl agored i niwed. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu o dan y Grant Cynnal Refeniw, ac roedd hyn hefyd wedi cael ei ddiogelu fel rhan o'r setliad llywodraeth leol craidd a'i gynyddu hefyd 3.1%.

Wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft, dywedodd Gweinidogion yn glir fod gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu pe byddai'n dod ar gael. Mae'r gweithlu gofal

cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a bydd yn parhau i fod felly. Er bod yn rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd i leihau grant y gweithlu, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyllid sylweddol i gefnogi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Yn 2019-20, darparodd Llywodraeth Cymru £30m i'r sector ar ffurf grant gweithlu. Cafodd hyn ei gynyddu i £40m yn 2020-21; £50m yn 2021-22; £45m yn 2022-23; a £45m yn 2023-24.

Yn dilyn dyraniad o gyllid ychwanegol yn yr Amcangyfrifon Atodol, rydym wedi adolygu effaith y dewisiadau hyn a, chan fod y sefyllfa gyllido wedi caniatáu, rydym wedi darparu £10.5m ychwanegol yng Nghyllideb Derfynol 2024-25 i gefnogi grant y gweithlu gofal cymdeithasol a lliniaru'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd £14.5m arall yn cael ei ddyrannu i'r Grant Cynnal Refeniw i helpu i gwrdd â phwysau ehangach ar wasanaethau cyhoeddus, sy'n cynnwys pwysau mewn gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn adfer y grant i £45m sy'n lefel sylweddol o gyllid ac yn uwch o lawer na lefelau 2019-20; bydd y cyfan yn mynd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i gefnogi eu gweithlu gofal cymdeithasol yn 2024-25. Mae hyn yn dal yn swm sylweddol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i sefydlogi ei weithlu.

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cymhorthdal ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 a'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25, gan gynnwys yr allbynnau y mae'n eu disgwyl o'r cyllid hwn, ac a fydd angen darparu dyraniadau ychwanegol tebyg yn barhaus.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd amcangyfrif cychwynnol Trafnidiaeth Cymru (TrC) o'r costau a dderbyniwyd yr haf diwethaf yn dangos bwlch rhwng y gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd y llynedd o tua £150m. Yng ngoleuni her gyllidebol ar draws Llywodraeth Cymru, rydym wedi gweithio'n agos gyda TrC i reoli'r bwlch hwn, gan gynnwys adolygiad o gostau a refeniw sydd wedi arwain at ostyngiad o £11m yn eu gofyniad cyllideb. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl y bydd refeniw ychwanegol o incwm arall y flwyddyn nesaf tua £19m yn fwy, a fydd yn cynnwys newid yn y broses o ddyrannu ac amcangyfrif y cyllid gan Lywodraeth y DU i weithredu, cynnal ac adnewyddu seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd y cytunwyd arno ar adeg trosglwyddo perchnogaeth y seilwaith hwn. Ni fydd gwerth terfynol y ffrydiau incwm hyn yn hysbys tan y flwyddyn ariannol nesaf. Ond, ac ystyried yr ansicrwydd a'r pwysau parhaus ar y gyllideb, rydym yn parhau i weithio gyda TrC i nodi opsiynau i leihau costau ymhellach a chynyddu refeniw dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn darparu amserlen ar gyfer rhoi Siarter Budd-daliadau Cymru ar waith;
- yn cyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod pecyn cyson o grantiau a chynlluniau cymorth ariannol yn cael ei ddarparu, yn unol ag amcanion y Siarter.

**Ymateb: Derbyn**

Lansiwyd Siarter Budd-daliadau Cymru ar 22 Ionawr gyda chymeradwyaeth pob un o'r dau ddeg dau awdurdod lleol, gan gadarnhau eu hymrwymiad ar y cyd i wella mynediad at y cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Mae grŵp llywio allanol, sy'n cynnwys arbenigwyr ar ddarparu budd-daliadau yng Nghymru a chefnogi pobl sy'n wynebu'r anhawster mwyaf wrth hawlio budd-daliadau, wedi cael ei sefydlu i geisio rhoi ymrwymiadau'r Siarter ar waith.

Cynhaliodd y grŵp llywio ei gyfarfod cyntaf ar 14 Chwefror a dechreuodd ar ei waith i ddatblygu cynllun gweithredu o'r holl weithgareddau sydd eu hangen i sefydlu system fudd-daliadau yng Nghymru lle darperir budd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth ariannol yn unol â nodau'r Siarter. Ac ystyried cymhlethdod y dasg, rhagwelir y bydd camau gweithredu tymor byr a thymor hwy, a byddant yn cael eu nodi, ynghyd ag amserlenni gweithredu, yn y cynllun gweithredu. Bydd y grŵp llywio hefyd yn goruchwylio'r gwaith o roi'r cynllun gweithredu ar waith ac yn adrodd ar y cynnydd i Gyngor Partneriaeth Cymru. Nod y grŵp llywio yw cynhyrchu'r cynllun gweithredu erbyn Haf 2024.

Byddwn yn mynd ar drywydd casglu data ynghylch rhywedd.

**Argymhelliad 33.** Mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Dewisol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau llwyddiannus, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhywedd;
- yn adolygu'r broses o wneud taliadau i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn gronfa sy'n cael ei harwain gan alw ac mae'n agored i bawb sy'n wynebu argyfwng, beth bynnag fo'u rhyw. Mae'r dull ymgeisio mor glir a syml â phosibl er mwyn cynnal cydymffurfiaeth. Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae gan ymgeiswyr y cyfle i nodi eu rhywedd yn wirfoddol. Gan fod yr opsiwn yn wirfoddol, nid yw'r data yn gyflawn, ac am y rheswm hwnnw nid yw data ar rywedd erioed wedi cael ei gasglu na'i adrodd yn ffurfiol.

Ac ystyried natur y Gronfa Cymorth Dewisol fel cronfa argyfwng, wedi'i thargedu at y rheini sy'n delio â sefyllfaoedd anodd iawn, nid oes dim cynlluniau i wneud casglu gwybodaeth am rywedd yn orfodol ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol â chynnal proses ymgeisio glir a syml.

Mae'r ystod lawn o ddata'r gronfa hon sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei chyhoeddi bob chwarter gan Lywodraeth Cymru ar wefan Stats Cymru.

Felly, gellir derbyn y cynnig mewn egwyddor gan fod data Cronfa Cymorth Dewisol yn cael ei gyhoeddi gyda'r cafeat nad oes cynlluniau i gasglu data am rywedd.

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn adolygu trothwyon cymhwystra Grant Dysgu Llywodraeth Cymru;
- yn ystyried cynyddu gwerth y Grant.

**Derbyn mewn egwyddor**:

Rydym yn cydnabod nad yw'r trothwyon a'r cyfraddau sy'n cael eu talu ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach wedi cynyddu, ac er y gallai fod manteision i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Cynllun, rhaid i ni gydnabod nad oes gennym gymaint o allu i ymateb i newidiadau, yn enwedig ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer ein Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg sy'n ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach yn cael ei ystyried yn 2024.

Un cynnig yn unig gan Lywodraeth Cymru i oedolion 19 oed a hŷn yw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach; gall myfyrwyr hefyd elwa o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a weinyddir gan golegau.

Ni fwriedir i Gronfa Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach fod yn rhywbeth sy'n cynnal a chadw'n llawn, tebyg i'n cymorth statudol i fyfyrwyr ond, yn hytrach, yn gyfraniad tuag at gostau a allai godi.

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r trothwy cymhwystra ar gyfer cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, gyda'r bwriad o'i estyn i blant y mae eu rhieni'n cael Credyd Cynhwysol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu eisoes yn ein hymrwymo i adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn, ein ffocws cyntaf, a ffocws ein partneriaid, yw ymestyn hawliau drwy ddarparu prydau ysgol am ddim i ysgolion cynradd. Wrth i ni barhau i gyflwyno'r cynnig hwn, rydym yn dysgu gwersi gwerthfawr a fydd yn sail i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol mewn perthynas ag ehangu cynnig prydau ysgol am ddim ymhellach, os daw'r cyllid ar gael.

Mae'r amcangyfrifon cychwynnol presennol yn nodi bod angen o leiaf £28m i ddarparu prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd i blant y mae eu rhieni'n derbyn credyd cynhwysol. Mae hyn cyn rhoi cyfrif am gostau gweinyddu a seilwaith ehangach. Rydym o'r farn bod y ffigur hwn yn rhy isel, ac nad yw'n fforddiadwy o fewn y setliad ariannol presennol.

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r model gofal plant:

- i asesu ei effeithiolrwydd ac i sicrhau ei fod yn galluogi rhieni i gael cyflogaeth amser llawn
- i sicrhau ei fod yn darparu cymorth digonol i fenywod gael mynediad at addysg bellach ac uwch.

**Ymateb: Derbyn**

Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi bod ar gael ar draws Cymru ers mis Ebrill 2019. Mae'n cynnig 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

O fis Medi 2022, fe wnaethom ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant, gan gefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Roedd 15,922 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd hawlio o 60% o'r plant cymwys a amcangyfrifir. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23, rydym yn amcangyfrif bod oddeutu 1,140 o deuluoedd ychwanegol wedi cael cymorth oherwydd bod y Cynnig wedi'i ehangu i gynnwys rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant.

Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwerthuso ac Adolygu

Ers ei lansio, mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cael ei werthuso'n flynyddol, gan ymgysylltu â darparwyr a rhieni, i ddeall yr effaith, y ddemograffeg a'r rhwystrau rhag defnyddio'r Cynnig Gofal Plant. Mae hyn yn cynnwys yr effaith o ran galluogi rhieni i ailymuno neu aros yn y gweithlu.

Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso diweddaraf ym mis Mawrth 2023, a chanfu fod 75 y cant o rieni wedi dweud bod y Cynnig wedi'i gwneud yn haws iddynt wneud eu gwaith, dywedodd 37 y cant o rieni y byddent yn gweithio llai o oriau pe na bai'r Cynnig ar gael iddynt. Hefyd, dywedodd 10 y cant o rieni y byddent mewn swydd gyda llai o gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa, a dywedodd 10 y cant arall na fyddent yn gweithio o gwbl pe na bai'r Cynnig wedi bod ar gael iddynt.

Nid oedd yr adroddiad gwerthuso hwn yn gallu ystyried effaith yr ehangu ar rieni mewn addysg a hyfforddiant gan ei fod eisoes ar waith pan gyflwynwyd y newidiadau. Ond, bydd y gwerthusiad nesaf yn dechrau pennu effaith y gwaith hwn.

Yn ogystal â'n rhaglen werthuso flynyddol, rydym hefyd wedi cynnal ymchwil sylfaenol ar y rhwystrau i gael gafael ar y Cynnig Gofal Plant, ac wedi comisiynu ymchwil annibynnol i elfennau penodol o'r Cynnig Gofal Plant, fel y Grant Cymorth Ychwanegol. Disgwylir adroddiad ar hyn ym mis Mai 2024, er mwyn cyfrannu'n well at ddatblygu polisi a'n strategaeth gyfathrebu.

Rydym yn datblygu rhaglen gwerthuso effaith a fydd yn edrych ar effeithiau tymor hwy y Cynnig ar rieni a phlant. Bydd ymchwil fel rhan o'r rhaglen hon yn dechrau yn nes ymlaen eleni.

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am yr effaith y gallai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar ofal plant ei chael ar feysydd eraill o'r gyllideb, a'r camau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhaglen sy'n cael ei harwain gan alw ac mae cymorth ar gael i bob rhiant cymwys sy'n gwneud cais. Pennwyd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25 drwy asesu'r tueddiadau yn y niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig ers iddo ddechrau – gyda chyfraddau'r rheini sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ar gyfartaledd tua 55% o rieni cymwys ledled Cymru.

Mae'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer 2024-25 yn cyfrif am gynnydd posibl yng nghyfraddau'r rheini sy'n manteisio ar y Cynnig i 65% o rieni cymwys. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni'r holl rwymedigaethau presennol a pharhau i hybu mwy o niferoedd, gan annog rhagor o rieni cymwys i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

Mae lansio Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant i Gymru ym mis Ionawr 2023 yn golygu bod taliadau ar gyfer y Cynnig yn cael eu gwneud yn awr gan Lywodraeth Cymru mewn ôl-daliadau, yn hytrach na thrwy awdurdodau lleol ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fonitro hawliadau, ac amcangyfrif o'r lefelau hawlio, yn amlach ac yn fwy cywir er mwyn llywio'r broses rhag-weld yn well yn erbyn ein cyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw.

Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig, yn gyfraddau rhieni ac yn oriau a ddefnyddir, yn fisol drwy gydol y flwyddyn. Os bydd y nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn mynd y tu hwnt i'n cynlluniau cyhoeddedig, rydym ni fel Llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r holl gyllid sydd ei angen i gyflawni'r Cynnig.

**Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r broses o gyflwyno'r rhaglen Cartrefi Clyd i sicrhau ei bod yn cyrraedd y rhai mewn angen cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym ar y trywydd iawn i lansio ein Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ar 1 Ebrill. Yn y cyfamser, cafodd y contract ar gyfer cyflwyno'r cynllun Nyth presennol ei ymestyn i ddiwedd mis Mawrth er mwyn pontio rhwng y ddau gynllun yn hwylus a sicrhau bod y rhai mewn angen yn parhau i dderbyn cymorth.

Mae swyddogion yn awr yn cwblhau telerau contractau ar gyfer y gwasanaethau cyflenwi, ac mae gweithgarwch symud yn digwydd ochr yn ochr. Yn ystod y cyfnod rhoi ar waith, byddwn yn cytuno ar y strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'n cyflenwyr i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr aelwydydd cywir. Rydym hefyd yn sefydlu cysylltiadau â sefydliadau eraill sy'n helpu aelwydydd agored i niwed ac aelwydydd incwm isel i hwyluso atgyfeiriadau i'r cynllun.

Er ein bod yn ceisio cynyddu effaith y £30 miliwn o gyfalaf a ddyrannwyd i Gartrefi Cynnes, rydym hefyd yn cydnabod maint y newid sydd ei angen i wella effeithlonrwydd ynni aelwydydd incwm isel ledled Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n contractwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan alw yn ategu cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eraill, er mwyn denu cymaint o gyllid â phosibl i Gymru o gynlluniau sy'n digwydd ar draws Prydain Fawr, a sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini sydd â'r angen mwyaf. Byddwn yn monitro'r ddarpariaeth ac yn gwerthuso'r canlyniadau, a byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd bob blwyddyn.

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r dyraniadau a ddarparwyd ar gyfer cyflenwi a datblygu tai fforddiadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel llywodraeth, rydym wedi penderfynu gwarchod cyllidebau sy'n cefnogi tai cymdeithasol yn uniongyrchol ar adeg pan wynebir pwysau sylweddol. Mae'r ymrwymiad i dai cymdeithasol wedi'i ategu gan y lefelau uchaf erioed o gyllid – mae bron i £1.2 biliwn o gyfalaf wedi cael ei ddyrannu i'r Grant Tai Cymdeithasol dros bedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon.

Yng nghyd-destun y pwysau economaidd a chyllidebol y mae Cymru'n eu hwynebu – nad ydym ni'n gyfrifol am eu creu – mae cynnal y lefelau cyllido yn ein cyllideb 2023-24 ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol ac yna gallu cynyddu'r dyraniad ar gyfer 2024-25 yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol i'w rhentu.

Mae'n bwysig nodi, er mai'r Grant Tai Cymdeithasol yw prif linell y gyllideb, fod ffrydiau cyllido eraill sydd hefyd yn cefnogi darparu tai cymdeithasol.

Drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, mae cyllid yn cael ei ddarparu i landlordiaid cymdeithasol ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau i ddarparu mwy o gartrefi'n ddi-oed. Lansiwyd Cynllun Prydlesu Cymru ym mis Ionawr 2022, ac mae'n cynnig £30m dros dymor y Senedd hon i wella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat.

Mae'r cynllun Tir ar gyfer Tai yn cynyddu'r opsiynau cyllido sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau safleoedd tir ar gyfer datblygu tai. Mae'r cynllun benthyca'n galluogi prynu tir i helpu gyda'r cyflenwad tai ar gyfer cartrefi fforddiadwy a/neu gartrefi ar y farchnad.

Mae'r portffolio tir yn cael ei ddefnyddio i ddarparu mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy ledled Cymru, gyda'r nod o ddatblygu safleoedd gyda 50% o dai fforddiadwy. Drwy ein Safonau Datblygu Tai Enghreifftiol, rydym yn cyflawni amrywiaeth o amcanion polisi trawslywodraethol ar ddatblygiadau tai rydym yn ymwneud â nhw naill ai drwy waredu tir, mentrau ar y cyd neu drwy ddarparu cymorth ariannol i bartneriaid cyflawni.

Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i sut y gellir defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar ffurf benthyciad i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu mwy o gartrefi cymdeithasol yng Nghymru. Mae £40m wedi cael ei sicrhau, a bydd gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd orau o wneud hyn er mwyn cyflawni cymaint â phosibl.

Rydym yn gwybod na allwn ni barhau i ddarparu cartrefi yn y ffordd draddodiadol, a dyna pam mae atebion tai arloesol wedi cael eu prif ffrydio i raglen gyllido'r Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd wedi annog Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i edrych am atebion amgen o ran tai fel tai dan arweiniad y gymuned fel ffordd o ddiwallu anghenion eu cymunedau.